# Byddwch yn Rhan o #CymruWrthHiliaeth - Cynghrair Hil Cymru

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 19/04/2021

Yn darfod ar: **19/04/2024**

**Statws: Cyflawn**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Llywydd yr Undeb**

## Crynodeb

Dod yn rhan o Gynghrair Hil Cymru er mwyn #CymruWrthHiliaeth.

## Manylion

Mae'r polisi hwn yn cynnig sicrhau bod ein Hundeb Myfyrwyr yn gwneud ymrwymiad cyhoeddus i waith gwrth-hiliol ac yn dod yn aelod o Gynghrair Hil Cymru (RAW). Mae RAW yn fenter sy'n ceisio cysylltu a chefnogi mudiadau sydd â’r nod o gyflawni cydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Mae gan eu maniffesto 10 nod, sy'n cynnwys: · Casglu data am ethnigrwydd yn y gweithlu a gwahanol sectorau eraill, · Datblygu cynllun cydraddoldeb hiliol strategol, · Cynnwys addysg wrth-hiliol yng Nghwricwlwm Newydd Cymru, · Cynorthwyo â gwella ymateb cyfreithiol Cymru o ran mynediad at gyfiawnder a diogelwch ar gyfer unigolion o leiafrifoedd ethnig, · Buddsoddi mewn cymorth iechyd corfforol a meddyliol i bobl o leiafrifoedd ethnig. Trwy ddod yn aelod o'r mudiad hwn gallwn; gydweithredu yn eu hymgyrchoedd, trefnu deisebau, a mynychu cyfarfodydd grwp traws-bleidiol ar Hil a Chydraddoldeb a chyfarfodydd cylch polisi. Credaf y bydd dod yn rhan o'r mudiad hwn o gymorth i’n hymgyrch “Dim Esgusodion” ac yn adlewyrchu’n gadarnhaol ar gymuned CALIE ein prifysgol.

Cyflwynwyd gan: Darya Koskeroglu

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|
| Mae'r Undeb wedi ymuno â Chynghrair Hil Cymru fel rhan o'n hymrwymiad i waith gwrth-hiliol. | | |